

dysg Iddewig. Cafodd y Shulchan Aruch ei dderbyn gan y rhan fwyaf o Iddewon Seffardig ac yn ddiweddarach gan yr Ashkenazim, wedi i'r ysgolhaig Pwylaidd, Rabbi Moses Isserles, ychwanegu nodiadau ato. Yr enw ar y nodiadau hyn, oedd yn ymdrin ag arfer yr Ashkenazim, oedd y *Mappah*, sef y 'Lliam Bwrdd' ar gyfer y Bwrdd Parod.

Mae'r pynciau sydd dan sylw yn y Shulchan Aruch yn cynnwys gwahardd defnyddio llysoedd an-Iddewig; deddfau ar ymweld â chleifion; a deddfau ynglŷn â halltu cig, fel y gwelwn yn yr enghreifftiau a ganlyn:

Hyd yn oed os oes gan y pleintydd ddogfen sy'n dweud y caiff wysio'r amddiffynnydd o dan gyfraith y Cenedloedd – ni chaniateir iddo ei wysio ger bron llysoedd y Cenedloedd ... Mae ymweld â'r cleifion yn ddyletswydd crefyddol. Caiff perthnasau a ffrindiau alw heibio ar unwaith, a diethriaid ar ôl tridiau. Os bydd dyn, fodd bynnag, yn mynd yn sâl yn sydyn, caiff y naill grŵp a'r llall alw i'w weld ar unwaith ... Ni ddylid ymweld â'r rheini sy'n dioddef o afiechyd y coluddion, neu'r llygaid, neu o gur pen. Yn yr un modd, ni ddylid ymweld yn bersonol ag unrhyw un sydd yn ddifrifol wael, y byddai siarad yn niweidiol iddynt, ond gellir galw heibio i ystafell allanol a holi, a gweld a oes ar y claf angen rhywun i ysgubo a pherarogli ei ystafell, neu gyflawni gwasanaeth tebyg iddo. A dylid ymddiddori yn ei afiechyd a gweddio drosto ... Yn achos rhai sy'n dioddef o afiechyd y coluddion, y ddeddf yw na ddylai dyn ofalu am fenyw, ond y caiff menyw ofalu am ddyn ... Ni ddylai'r halen fod mor fân â blawd, rhag iddo doddi ar unwaith yn y cig beb dynnu'r guaed ohono. Ni ddylai ychwaith fod yn arw iawn, neu bydd yn syrthio oddi ar y cig. Yn hytrach, dylai'r gronynnau fod o faint canolig, fel yr halen a ddefnyddir i goginio; a dylai fod yn sych, er mwyn iddo allu cael ei daenu'n rhwydd.

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am y parhad rhwng Uniongrededd ac Iddewiaeth rabbinaidd
- sut y bu'n rhaid i Uniongrededd ei diffinio ei hun yng nghyfnod y rhyddfrefniad a'r oleuedigaeth
- am wreiddiau a datblygiad Chasidiaeth.

Gwyddom fod amrywiaeth o sectau neu fudiadau Iddewig yn bod yn y ganrif gyntaf OG, ond datblygiad Iddewiaeth rabinaidd a roddodd ffurf i'r grefydd. Fyddai pawb ddim yn derbyn fod cysylltiad di-fwlch rhwng y Phariseaid a'r rabinaid diweddarach (gweler pennod 3) ond prin y byddai neb yn gwadu mai'r Iddewiaeth a oedd yn seiliedig ar awdurdod y Torah ysgrifenedig (y Beibl) a'r Torah llafar (y Talmud) oedd â'r gallu i oroesi dinistr yr Ail Deml. Parhaodd y grefydd i oroesi drwy'r Oesoedd Canol tan y cyfnod modern, sy'n dyddio o'r Chwyl dro Ffrengig ym 1789. O'r adeg honno ymlaen, mae'n mynd yn amhosib sôn am y grefydd Iddewig fel pe bai pob un o'i dilynwyf yn credu'r un pethau yn sylfaenol. Mae angen dechrau labelu gwahanol fathau o Iddewiaeth.

Diffinio 'Uniongred'

Mae llawer yn mynnu fod y label 'Uniongred' (*Orthodox*) yn gamarweiniol, gan ei fod yn golygu 'y gred iawn'. Gan dderbyn fod amrywiaeth o greddau o fewn Iddewiaeth rabinaidd, efallai y byddai'r term 'Unionarfer' (*Orthoprax*) yn well. Mae rhai'n dadlau fod Iddewiaeth yn poeni mwy am 'arfer a defod iawn', sef beth mae pobl yn ei wneud yn hytrach na beth maen nhw'n ei gredu. I'r rheini sy'n ceisio deall Iddewiaeth yn ei gwahanol ffurfiau heddiw (yn enwedig pobl y tu allan iddi), mae perygl gorbwysleisio'r ddadl hon.

Mae'n wir nad yw'r Iddewon sy'n cael eu galw'n 'Uniongred' heddiw yn defnyddio'r term eu hunain yn aml iawn; mae'n well ganddyn nhw ddigrifio'u hunain fel Iddewon 'ffyddlon'. (Iddewon Diwygiedig a fathodd y term 'Uniongred' yn wreiddiol fel term dilornus, fel y bathodd Eglwyswyr y term 'Trefnyddion' neu 'Fethodistiaid' am Brotestaniaid a oedd, yn eu barn nhw, yn or-drefnus yn eu bywyd defosiynol.) Ond mae hyn eto yn seiliedig ar gred. Maen nhw'n credu eu bod yn ufuddhau i'r Torah (y Gyfraith Iddewig) fel y mae'n ymddangos yn y Beibl, ac yn cael ei datblygu yn y Talmud, felly does dim angen label i wahaniaethu rhyngddynt nhw ag Iddewon eraill, gan mai nhw sy'n dilyn cadwyn traddodiad. Fel y gwelwom ym mhennod 1, ac fel y gwelwn yn y penodau sydd i ddod, mae rhai Iddewon yn dathlu gwyliau neilltuoel ac yn peidio â bwyta bwyd sydd wedi ei wahardd, fel porc, er mwyn teimlo'n rhan o'r bobl Iddewig yn hytrach nag oherwydd cred fod Duw wedi gorchymyn y pethau hyn. Serch hynny, mae'n anodd dychmygu pam mae Iddewon sy'n cadw pob mitzvot (gorchymyn) posibl, waeth pa mor anghyfleus a chostus y

bo hynny, yn ymddwyn felly os nad ydyn nhw'n credu'n gryf eu bod, fel Iddewon, wedi cael gorchymyn i wneud hynny. Mae'n bosib gorbwysleisio'r cysylltiadau rhesymegol rhwng cred ac ymddygiad, ond mae'n bosib peidio â rhoi digon o sylw iddyn nhw hefyd. Dydy'r ffaith nad ydy pob Iddew Uniongred yn cadw pob gorchymyn, a'r ffaith mai mater biolegol yw Iddewdod (yn ôl yr halachah, drwy fod â mam sy'n Iddewes) ddim yn dinistrio'r ddolen gyswllt sylfaenol rhwng ffydd ac arfer.

Pwysigrwydd cred

Mae'r gyfrol hon yn ceisio deall beth yw Iddewiaeth. Dydy disgrifio defod ac arfer gwahanol grwpiau crefyddol, heb archwilio beth sydd wrth wraidd yr arferion hynny, ddim yn ein helpu i ddeall llawer am y grefydd, ddim mwy na dim ond adrodd hanes yr Iddewon a ffyrdd o fynegi Iddewiaeth, er mor bwysig yw'r elfen hanesyddol. Y cwestiwn pwysig yw pa arferion y byddem yn eu disgwyl gan rywun sy'n dweud 'Iddew ydw i', mewn cyfnod a lle neilltuoel. Os nad yw cred yn ffactor bwysig mewn diffinio Iddewiaeth (fel mae rhai pobl yn dadlau), yna dylai'r grefydd yma, o bob crefydd, fod yn unedig, oherwydd gwahaniaethau mewn cred sy'n tueddu i achosi rhaniadau mewnol. Mae Jonathan Sacks, Prif Rabbi Cynulleidfaoedd Hebraidd Unedig y Gymanwlad, yn ystyried hyn yn eigyfrol *One People?* (Littman, 1993). Mae'n gwrthod defnyddio'r term 'enwadau', yn enwedig i ddisgrifio Uniongrededd, gan nad yw natur Iddewiaeth, yn ei farn ef, yn caniatáu cydnabod fersiynau eraill ohoni. Mae'n dyfynnu Samson Raphael Hirsch sydd, fel y cawn weld, yn allweddol yn natblygiad yr hyn a elwir yn Uniongrededd heddiw: 'Dydy Iddewiaeth ddim yn cydnabod unrhyw amrywiadau. Dydy hi ddim yn gwybod am Iddewiaeth foeseinaidd, broffwydol neu rabinaidd, nac Iddewiaeth uniongred neu flaengar. Mae hi naill ai'n Iddewiaeth neu dydy hi ddim yn Iddewiaeth.' Ond y ffaith amdani yw mai'r hyn sy'n rhannu Iddewon yw cred. O safbwynt awdurdod y Beibl, a natur orfodol halachah, mae gwahaniaethau diwinyddol gwirioneddol yn bod rhwng Iddewon Uniongred a phob Iddew arall, sef yr Iddewon 'an-Uniongred'. Mae awduron eraill – ac mae rhai o'r rheini, rhaid dweud, yn llai ysgolheigaidd ac yn llai realistig am farn gwahanol garfannau Iddewig na Sacks – yn credu ei bod hi'n hen bryd ystyried ffyrdd o uno cymuned grefyddol sy'n edwino beunydd ond sy'n dal yn rhanedig. Efallai nad yw Iddewiaeth yn ymwahanu i gategorïau fel Pabyddiaeth, Protestaniaeth a'r Eglwys Uniongred mewn Cristnogaeth, ond mae peth tebygrwydd. Gan geisio osgoi gorsymleiddio'n wylt, mae'n

bosibl dadlau fod gwahaniaethau Cristnogol yn deillio o gred gwahanol grwpiau am awdurdod – awdurdod yr ysgrythur a thraddodiad. Mae ymddygiad gwahanol enwadau'n tarddu o'r hyn maen nhw'n ei gredau. Mae gwahanol is-grwpiau wedi ymfurfio ar sail argyhoeddiad ynglŷn â sut y dylid gwneud pethau. (Doedd Methodistiaeth yn wreiddiol ddim am fod yn enwad ar wahân i Anglicaniaeth ddim mwy nag oedd Iddewiaeth Ddiwygiedig yn bwriadu cefnu ar Uniongrededd.) Yn ffodus, does gan Iddewiaeth ddim cymaint o is-grwpiau â Christnogaeth, o bell ffordd. Ac eto, mae'r agendor rhwng Iddewon Uniongred ac an-Uniongred yn ddyfnach na'r bwlich rhwng y rhan fwyaf o enwadau Cristnogol. Mae angen archwilio'r ffactorau a arweiniodd at y gwahanol agweddau hyn tuag at gred ac arfer.

Parhad a diffyg parhad

Ar un ystyr, yr un yw Iddewiaeth Uniongred y byd heddiw â'r grefydd sy'n cael ei disgrifio yn y bennod flaenorol. Wedi'r cwbl, hanfod Iddewiaeth rabinaidd oedd datblygu i ymateb i sefyllfaoedd newydd. Ond yn y ddeunawfed ganrif, roedd newydd-deb y sefyllfa yn ddigymar. Un ymateb i hynny oedd datblygiad math newydd o Uniongrededd. Yn eironig ddigon, yr her a oedd yn wynebu Iddewiaeth oedd rhyddfrefiniad gwleidyddol yr Iddewon, a'u plymiodd i mewn i argyfwng hunaniaeth sydd yn dal i fod heb ei ddatrys.

Rhwng 600 a 1800 OG, hanfod hunaniaeth yr Iddewon oedd mai nhw oedd 'Israel', pobl sanctaidd. Roedd pawb yn edrych ymlaen at ddechrelyd o *galut* ('allrudiaeth') i'r wlad (ac yn wir, roedd hynny'n dal yn wir ymhell wedi 1800). Yn y cyfamser, roedd yn rhaid i Iddewon dderbyn eu bod dan reolaeth wleidyddol pobloedd y gwledydd roedden nhw'n byw ynddyn nhw. Boed mewn gwlad Gristnogol neu Fwslimaidd, roedd rhaid i'r Iddewon ddal i fyw bywyd sanctaidd yn ôl safonau cred ac arfer y Torah, ysgrifenedig a llafar. Roedd hi'n amlwg beth ddylai Iddewon ei wneud, pwy oedden nhw, ac i ble'r oedden nhw'n mynd.

Wedi'r Chwyldro Ffrengig a Rhyfeloedd Napoleon, cafodd Iddewon gorllewin Ewrop yr hawl i bleidleisio a iawnderau eraill oedd wedi cael eu gwadu iddyn nhw tan hynny. Gyda Chyfansoddiad America, a'i Mesur Iawnderau ym 1787, ac ordinad Cynulliad Cenedlaethol Ffrainc ym 1791, roedd pawb bellach yn ddinasyddion. Roedd cael chwarae rhan lawn mewn bywyd cenedlaethol yn brofiad cwbl newydd i Iddewon. Roedden nhw wedi bod yn bobl ar wahân o ran y bwyd roedden nhw'n ei fwyta, y dillad roedden nhw'n eu gwisgo a hyd yn oed yr ieithoedd

roedden nhw'n eu siarad. Yng ngogledd a dwyrain Ewrop, roedden nhw'n siarad Iddeweg (*Yiddish*), tafodiaith Almaenaidd yn cynnwys elfennau o'r Hebraeg, Pwyleg a Rwsieg. Roedd Iddewon gwledydd Môr y Canoldir yn siarad Ladino, math o Sbaeneg. Y peth sylfaenol gwahanol amdany'n nhw oedd fod eu crefydd yn ffydd wahanol i ffydd y mwyafrif mewn gwahanol wledydd a chynfodau.

Uniongrededd modern

Rhoddodd y cyfnod modern ryddid i Iddewon i beidio â bod yn wahanol, na chael eu haddysgu ar wahân a gweithio mewn swyddi gwahanol i'w cyd-ddinasyddion. Roedd hyn yn agor meysydd cwbl newydd mewn bywyd, lle nad oedden nhw wedi gorfod ystyried y Torah o'r blaen. O ganlyniad, cododd y cwestiwn a oedd ffordd o gymodi rhwng Iddewiaeth rabinaidd draddodiadol a gofynion byw bywyd fel rhan o gymdeithas fodern. Craidd y mater oedd sut i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofynion gwrthwynebus traddodiad a moderniaeth.

Ymateb i hyn oedd datblygiad y gwahanol systemau sydd bellach yn dod o dan y penawdau Uniongrededd ac an-Uniongrededd. Yn y bennod nesaf, byddwn yn edrych ar yr ymatebion mwyaf radical. Yn y bennod yma byddwn yn ystyried ymateb yr hyn y gellir ei alw'n 'Uniongrededd modern'. Yn wahanol i'r Iddewiaeth Ddiwygiedig a ddatblygodd yn ddiweddarach, roedd ymateb Uniongrededd yn canolbwyntio nid ar ryddfrefiniad ond ar gadwyn traddodiad. Gan eu bod yn credu yn natguddiad Duw, ac yn awdurdod manwl y gyfraith a defod, a'u bod, o ganlyniad, yn anafodlon newid unrhyw agwedd ar addoli cyhoeddus neu ufudd-dod caeth, roedd Uniongredwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ganrif yn hawlio eu bod yn cynrychioli parhad Iddewiaeth unedig, heb ei rhannu gan systemau. Mynnai ei dilynwy'r eu bod yn trosglwyddo'r traddodiad mewn perthynas ddi-dor â'r gorffennol. Ac eto, roedd diffyg yn y syniad hwn o barhad, yn deillio o atebion a systemau grwpiau eraill a orfodai'r 'traddodiadolwyr' i fod yn fwy hunan-ymwybodol ac yn fwy dethol. Roedd Iddewiaeth y cyfnod yn seiliedig ar olwg newydd ar y byd ac roedd yn siarad ag 'Israel' wahanol i Israel Iddewiaeth rabinaidd. Ei delfryd oedd y Torah ynghyd â dysg seciwlar. Dywediad o'r Mishnah, yn argymhell astudio 'Torah ynghyd â galwedigaeth fyddol' (Avot 2: 2), oedd arwyddair Samson Raphael Hirsch. Iddo ef, roedd yr ymadrodd yn golygu fod y byd a'r diwylliant seciwlar yn gydnaws â dysg Iddewig.

Ym 1836, cyhoeddodd Hirsch ei *Nineteen Letters on Judaism* a oedd yn beirniadu ysgolion seciwlar iawn fel y Philantropin yn

Frankfurt a'r *chadarim* (ysgolon crefyddol Iddewig) traddodiadol hwyrthau. Roedd y naill yn methu 'addysgu'r galon' a'r llall yn dysgu 'Iddewiaeth nad oedd neb yn ei deall, fel arfer mecanyddol ... a heb ei hysbryd'. Roedd Hirsch o blaid cyfuno gwybodaeth seciwlar a chrefyddol, gan ddweud: 'Barn yr Iddew yw fod y gwirionedd, fel Duw, ei ffynhonnell, yn un ac yn anwahanadwy, ac felly rhaid i wybodaeth ohoni fod yn un ac yn anwahanadwy' (yn *Judaism Eternal*). Ni ddigwyddodd y cyfuniad roedd Hirsch yn ei ragweld ar unrhyw raddfa fawr, ond roedd yn cynnig ateb i argyfwng hunaniaeth Iddewon yr Almaen yn y bedwaredd ganrif ar bynthege ganrif a oedd yn wahanol i ateb y diwygwr mwy radicalaidd. Roedd yn cynnig ffordd o fyw yn y ddau fyd a wynebair Iddewon ar drothwy'r cyfnod modern. Gallent fod yn y byd seciwlar, cyhoeddus ac yn y byd preifat, Iddewig lle'r oedd yr halachah mewn grym o hyd. Roedd Hirsch yn bendant yn draddodiadwr yn y maes yma, a hefyd ym maes astudio'r Beibl. Mae'n hynod ei fod yn cymeradwyo rhesymeg mewn athroniaeth a gwyddoniaeth ond nid mewn beirniadaeth feiblaidd – roedd hynny, yn ei farn ef, yn gangymeriaid. Roedd yn gadarn yn erbyn y fersiynau gwahanol iawn o Iddewiaeth a oedd yn ymddangos yn y byd modern wrth iddo honni:

Mae Iddewiaeth Uniongred yn credu yn nihsrwydd dwyfol y Beibl, ac ni ŵyr ddim am wahanol awduron y Pentateuch, na'r Eseia Ffug, nac am ganeuon Macabeaidd dan enw Dafydd, nac Ecclesiastes Solomon o gyfnod yr Ail Deml, ac yn y blaen.

Mae gormod o gyffredinol yn rhy aml ynglŷn ag Uniongrededd a'r Beibl, ac mae angen pwyso a mesur er mwyn gallu disgrifio'r cyferbyniadau ag an-Uniongrededd yn gywir. Does fawr o ddiben cyhuddo Iddewon Uniongred o fod yn 'ffwmdamentalwyr' – yn bennaf oherwydd fod y gair yn cael ei ddefnyddio'n ddilornus a heb ei ddiffinio. Mae 'ffwmdamentaliaeth' yn gallu golygu nifer o wahanol bethau, ond dydy'r awgrym fod Iddewon Uniongred yn gwrthod ystyried cwestiynau am iaith ac arddull llyfrau'r Beibl (a elwir weithiau yn is-feirniadaeth feiblaidd) ddim yn wir. Ond ar gwestiynau hanesyddol (a elwir yn feirniadaeth uwch weithiau), mae angen esbonio agwedd Uniongrededd tuag at y Beibl, yn enwedig y Pentateuch.

Iddewiaeth Uniongred a'r Beibl

Yn y Talmud mae darn lle mae'r Rabbinaid yn trafod trefn y llyfrau beiblaidd a'u hawduron (Bavra Batra 14b-15a).

Oherwydd pwysigrwydd y Beibl mewn Iddewiaeth, bydddech yn disgwyl ymdriniaeth lawer ehangach. I bob golwg, yr hyn oedd yn bwysig i'r rabbinaid oedd bod y llyfrau wedi cael eu hysbrydoli, er fwy y graddau o ysbrydoliaeth yn amrywio (fel y gwelsom ym mhennod 2). Doedd pwy yn union a sgrifennodd y llyfrau ddim yn fater o ryw ddiddordeb mawr. Roedd pawb yn derbyn mai Moses sgrifennodd y Pentateuch (y pum llyfr cyntaf). Yr unig ddadl rhwng credinwyr a hereticaid oedd y cwestiwn a ddaethai 'o'r Nefoedd', hynny yw, ai Duw oedd y gwir awdur. Nid Rabbinaid y Talmud a ddechreuodd y math o feirniadaeth feiblaidd a ddatblygodd yn ddiweddarach. Doedd y syniad o wahanol awduron yn y Pentateuch ddim yn codi.

Mae rhai wedi dadlau (yn enwedig yr ysgolhaig Masorti (Ceidwadol) blaenllaw, Louis Jacobs – gweler pennod 5) nad yw hyn, o anghenraid, yn golygu fod Duw wedi rhoi'r Pentateuch cyflawn i Moses, yn cynnwys hanes pethau oedd heb ddigwydd eto. Byddai credu hynny, yn ôl Jacobs, yn mynd ymhellach na'r hyn oedd y Rabbinaid yn ei hawlio. Mae dweud y 'derbyniodd Moses y Torah ar Sinai' (Avot 1: 1) yn golygu fod y deddfau a'r ddyseidiaeth sydd yn y Torah ysgrifenedig a llafar wedi cael eu rhoi ar fynydd Sinai. Mae hyn ynddo'i hun yn honiad mawr, a dydy Iddewon an-Uniongred ddim yn ei dderbyn. Ond dydy hyn ddim yn golygu fod Iddewon an-Uniongred yn mynd ati i ddarlennu y Beibl gan ddefnyddio sgiliau athronyddol a ieithyddol i'w helpu i'w ddehongli tra bod Iddewon Uniongred yn cilio'n ôl i ryw gilfach ffwmdamentalaid, fel sy'n glir yng ngwaith awduron pwysig.

Beirniadaeth feiblaidd

Rydym eisoes wedi sôn am y Saadiah Gaon. Fe gyfieithodd y Beibl i'r Arabeg, ond mae'r esboniadau a sgrifennodd ar nifer o lyfrau beiblaidd yn dangos fod ganddo ddiddordeb mawr yn nheithi'r iaith Hebraeg hefyd. Roedd esboniadau beiblaidd Rashi, sydd yn aml yn ymddangos ochr yn ochr â thestun y Beibl Hebraeg, yn ddylanwadol iawn. Cafodd uwch-esboniadau eu sgrifennu amdanynt, fel yr uwchesboniadau ar esboniadau Rashi ar y Talmud a welsom yn y bennod flaenorol. Un o arloeswyr beirniadaeth feiblaidd oedd yr ysgolhaig o Sbaen, Abraham Ibn Ezra (1089-1164). Honnai nad Dafydd oedd awdur rhai o'r salmau, a bod holl bennod olaf Deuteronomium wedi cael ei hychwanegu gan Josua. (Mae eraill yn credu mai dim ond yr wyth adnod olaf, sef hanes marwolaeth Moses, gafodd eu hychwanegu.) Ibn Ezra oedd y beirniad cyntaf hefyd i awgrymu efallai bod llyfr Eسعيا yn waith mwy nag un awdur. Byddai

ffaddawdu â'r byd modern yn anghymharus â'r ffydd Iddewig. O'r safbwynt Tra-Uniongred yma, dydy Uniongrededd modern hyspach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu Sacks yn yr unfed ganrif ar hugain ddim yn ymddangos yn rhy draddodiadol; yn hytrach, credant nad yw'n ddigon traddodiadol.

Tra-Uniongrededd ★

Mae hwn yn label arall sy'n cael ei ddefnyddio gan rai Iddewon am rai sydd â safbwynt gwahanol (ac anghywir, yw'r awgrym). Yn sicr, ni fyddai'r rhai sy'n cael eu galw'n Dra-Uniongred yn defnyddio'r disgrifiad hwn eu hunain. Yn eu barn nhw, Iddewon duwiol neu draddodiadol dynt, a dim byd arall. Yn wir, un o'r problemau gyda'r termau am wahanol ganghennau Iddewiaeth yw bod aelodau gwahanol fudiadau oll yn credu mai nhw sy'n mynegi hanfod Iddewiaeth. Felly, fel y cawn weld yn y bennod nesaf, mae'r mudiad Diwygiedig yn pwysleisio natur esblygol Iddewiaeth halachaid ac yn hawlio ei bod yn y llinach honno. Y grŵp sydd dan sylw yma, o dan bennawd 'Tra-Uniongrededd', yw'r enghraifft orau o blith y gwahanol grwpiau Iddewig o ba mor annigonol yw labeli, a sut mae'r labeli hynny yn creu camargraff a rhoi gwybodaeth gamarweiniol i bobl sy'n ceisio eu deall.

Chasidiaeth

Yn y lle cyntaf, dydy'r Tra-Uniongred ddim yn grŵp unffurf. Mae dwy brif ffrwd. Mae'r cyntaf, y traddodiad Lithwanaidd, yn pwysleisio astudio'r Talmud yn yr *yeshivah* (neu'r academi, gweler disgrifiad pennod 8). Mae'r ail yn pwysleisio'r Torah hefyd, ond ynghyd ag agwedd gyfriniol. Chasidiaeth yw enw'r mudiad yma, o'r Hebraeg *chasid* ('duwiolffrydig', lluosog *chasidim*). Cafodd y term 'chasid' ei ddefnyddio am Iddewon duwiol a oedd yn gwrthsefyll ymosodiadau ar eu ffydd yn yr ail ganrif COG, ond roedd y mudiad Chasidig a darddodd yn nwyrain Ewrop yn y ddeunawfed ganrif, yng ngwlad Pwyl a Lithwania, yn enwedig, yn fwy o ddiwygiad nag o wrthsaifiad. Roedd yn apelio at werin Iddewig orthrymedig y gwledydd hynny, ac roedd fel diwygiad am ei fod yn ceisio dwysau defosiwn, dod â phobl yn nes at y dwyfol drwy ffyrdd hapus o addoli, yn enwedig canu a dawnsio. (Mae rhai alawon Chasidig yn deimladwy iawn, ac mae'n hynod sut mae hyd yn oed y rhai araf yn creu awydd i ddawnsio.) Roedd eu rabbiniaid, y *rebbe*s, yn gymeriadau carismatig oedd yn dilyn ysgolheictod heb elfen ysbrydol ynddi. Sylfaenydd y mudiad oedd Rabbi Israel ben Eliezer a gafodd yr enw *Baal Shem Tov* ('Meistr yr Enw Da', sef enw Duw) neu

hynny'n egluro nid yn unig y gwahaniaethau yn yr arddull ond hefyd y ffaith fod y 39 pennod gyntaf yn sôn yn bennaf am y cyfnod cyn y Gaethglud, fod 40-55 yn dod o gyfnod y Gaethglud, a 56-66 o'r cyfnod wedi'r Gaethglud. Mae'r datblygiad yma ar sail barn Ibn Ezra yn cael ei dderbyn gan y rhan fwyaf o ysgoleigion heddiw. Mater arall yw a ydy'r rhan fwyaf o Iddewon Uniongred yn derbyn hynny. Yn bwysicach, mae Uniongrededd yn gwrthod unrhyw awgrym na chafodd y Pentateuch cyfan ei roi i Foses ar fynydd Sinai. Dydy Uniongrededd ddim yn gwahaniaethu rhwng arddweud a datguddiad, yn gyffredinol, gwahaniaeth pwysig ym marn Iddewon an-Uniongred. Mae'r Uniongred yn credu fod y Pentateuch wedi cael ei drosglwyddo i Moses, ond nid drwy ddulliau corfforol. O ganlyniad, maen nhw'n gwrthod unrhyw feirniadaeth feiblaidd o'r Pentateuch. Mae'r ffaith y gallai beirniadaeth o'r fath niweidio'r ffydd Iddewig yn amlwg yng ngwaith Baruch Spinoza (1632-77). Roedd dylanwad Spinoza, un o sylfaenwyr yr oleuedigaeth resymegol, ar syniadau gorllewinol yn gyffredinol yn fawr iawn, er nad oedd mor ddylanwadol yn ei gymuned Bortiwgiaidd ei hun yn Amsterdam. Achosodd cwestiynau ynglŷn ag awduraeth y Beibl iddo wadu'r holl syniad o ddatguddiad. Rheswm dynol, nid Duw oedd ar waith yn y Beibl. Byddai llawer o feddylwyr mawr Iddewig yn cymryd rhan yn y ddaid hon, yn enwedig Moses Mendelssohn (1729-86), a geisiodd wneud y Beibl yn ddealladwy i ddarlennwyr modern drwy gyhoeddi trosiad Almaeneg gydag esboniadau ysgolheigaidd Iddewig. Ystyrir mai Mendelssohn oedd sylfaenydd yr *Haskalah* (yr 'Oleuedigaeth' Iddewig). Ond nid arweiniodd hynny Mendelssohn, Iddew crefyddol dros ben, i gyfeiriad beirniadaeth feiblaidd.

Mae rhai, yn enwedig y mudiad Ceidwadol (gweler pennod 5) a dorrodd i ffrwd oddi wrth Uniongrededd ar yr union fater yma, yn teimlo fod rhesymeg syniadau 'goleuedig' yn awgrymu fod y Pentateuch wedi cael ei dderbyn yn raddol dros nifer o ganrifoedd. Mewn erthygl ym 1995, a gafodd llawer o gyhoeddusrwydd, dywedodd Prif Rabbi Prydain fod unrhyw Iddew oedd yn gwadu fod Moses wedi derbyn y Torah yn uniongyrchol gan Dduw ar fynydd Sinai wedi 'torri cysylltiad â ffydd ei gyndadau'. Ymateb y mudiadau Diwygiedig a Rhyddfrydol, yn gam neu'n gymwys, oedd dweud y byddai diffiniad y Prif Rabbi o gred Iddewig yn eithrio o leiaf 90 y cant o Iddewon Prydain. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys llawer o Iddewon oedd yn perthyn i synagogau Uniongred. Rhaid cofio, fodd bynnag, fod llawer o Iddewon o wahanol gred ac arfer yn dod o dan adain Uniongrededd. Mae un safbwynt Uniongred, fodd bynnag, sy'n gweld unrhyw fath o

Aelodaeth Uniongred heddiw

(Y)styried llinach faith Iddewiaeth Uniongred, mae'n rhyfedd cyn hysgrifau sy'n aelodau o'r mudiad Uniongred yn y wlad â'r boblogaeth Iddewig fwyaf yn y byd, sef Unol Daleithau America. Dim ond 9 y cant yw'r ffigur, er fod hyn yn tyfu'n gyson, yn enwedig o blith pobl ifanc sy'n symud oddi wrth eu cefndir cartref mwy radicalaidd. Mae canolfan ail fwyaf Iddewiaeth, sef Israel, yn unigryw o ran y gymysgedd o bobl sy'n ymfudo yno. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i hynny ym mhennod 17. Digon am y tro yw dweud, er fod gan Uniongrededd gryn bŵer yn Israel, nad yw'n cynrychioli mwyafrif y boblogaeth Iddewig. Ym Mhrydain, mae'r nifer yn nes at yr hyn y bydddech yn ei ddisgwyl, gyda tua hanner Iddewon Prydain yn perthyn i'r Synagog Unedig. (Roedd Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain yn amcangyfrif rhyw 57,000 o aelwydydd yn 2002.) I fferasiwn yw hon o synagogau Ashkenazi yn Llundain, a sefydlwyd ym 1870 gyda chaniatâd Deddf Seneddol. Dyma'r corff sy'n penodi'r Prif Rabbi ac yn cynnal *Beit Din* (Llys Barn Iddewig) i Llundain; bydd pwysigrwydd hwn yn cael ei drafod ym mhennod 9. Honnir fod rhyw 25 y cant arall o Iddewon Prydeinig yn eu galw'u hunain yn Uniongred, gyda rhai o'r rhain yn perthyn i synagogau Uniongred nad ydynt yn perthyn i'r Synagog Unedig. (Er enghraifft, yn 2002, roedd 6,500 o aelwydydd yn perthyn i Undeb y Cynulleidfaoedd Uniongred, a rhyw 3,000 i gynulleidfaoedd Sefardig.) Ond rhaid cofio fod y garfan 'Uniongred' yma'n amrywio'n eang iawn o ran ufudd-dod crefyddol. Mae rhai'n dweud eu bod yn Uniongred yn yr ystyr syml nad ydyn nhw'n Ddiwygwyr neu oherwydd eu bod yn dod o deulu sydd, neu oedd, yn Uniongred. (Dylid nodi hefyd nad yw 25% o Iddewon Prydeinig yn aelodau o'r un synagog.) Mae hyn weithiau'n peri dryswch i bobl sy'n ymdrechu'n wirioneddol i geisio deall Iddewiaeth. Ar ôl dysgu na fydd Iddewon Uniongred yn bwyta pryddau sy'n cynnwys cig a llaeth ar yr un pryd na'n gyrru i'r Synagog ar y Sabath, maent yn dod ar draws rhai sy'n gwneud. Ydy'r rhain yn eithriadau? A oes hawl ganddynt i'w galw'u hunain yn Uniongred? Y peth doethaf er mwyn peidio â pheri tramgwydd yw tybio fod Iddewon Uniongred yn cymryd y defodau a amlinellir yng ngwahanol benodau'r llyfr yma o ddiifrif.

Y Tra-Uniongred

Mae grwpiau Tra-Uniongred yn lleiafrif bychan ond amlwg. Cafod Chasidiaeth ei dwyn i'r gorllewin gan don ar ôl ton o ymfudo o'r 1880au ymlaen, ac i'r Unol Daleithau ac Israel (Palesteina bryd hynny) yn sgîl yr Ail Ryfel Byd. Cafodd prif

yn ei ffurf fer, 'y Beshr'. Roedd yn iachawr poblogaidd, ac arweinwyd y mudiad ar ei ôl ef oedd cyfres o ddynion sanctaidd, y *zaddikim* ('y rhai cyfiawn', unigol *zaddick*). Roedd gan bob zaddick awdurdod am ei fod mor agos at Dduw.

Roedd hyn yn wahanol i arweinyddiaeth draddodiadol y rabbi oedd ag awdurdod ar sail ei ysgolheictod yn unig. Oherwydd hynny, datblygodd gwrth-fudiad, y *Mitnagdim* ('gwrth-wynebwyr'). Ei arweinydd oedd Elijah ben Solomon Zalman o ddinas Vilnius yn Lithuania, a chafodd yr enw Gaon (Vilna) am ei fod mor ddysgedig. Roedd hefyd yn feistr ar ysgrifau cyfriniol y *Kabbalah* ('Traddodiad') ond roedd yn eu dehongli mewn modd gwahanol i'r Chasidim oedd yn dibynnu ar fathau eraill o ysbrydoliaeth heblaw dysg. Nid yw cyfriniaeth yn bwnc hawdd ei ddeall, a does dim angen mynd ar drywydd hynny mewn llyfr sy'n ceisio egluro sut mae Iddewon yn meddwl ac yn mynegi eu ffydd heddiw. Ond mae llawer math o gyfriniaeth wedi dylanwadu ar fudiadau Iddewig ac Iddewon unigol, ac nid o fewn Tra-Uniongrededd yn unig.

Mae Iddewon Chasidig yn disgwyl i'w rabiniaid fod yn ddynion sydd wedi cyrraedd cyflwr cyfriniol trosgynnol, sy'n eu hysbrydoli fel arweinwyr. Disgwylir iddynt, fodd bynnag, ddistyllu o'r traddodiad cyfriniol yma ffordd o fyw ar gyfer yr Iddew cyffredin, nid dim ond yr arweinydd. Mae elfen ddiwygiadol Chasidiaeth y ddeunawfed ganrif i'w gweld yn glir yng ngwaith cenhadu eang un grŵp Chasidig neilltuol, y Lubavitcher (o dre Rwsiaidd Lubavitch) neu'r Chabad (o'r geriau Hebraeg am 'ddoethineb, dealltwriaeth a gwybodaeth'). Mae'r mudiad Lubavitch yn pwysleisio'r Talmud a'r Kabbalah. Mae'n anarferol yn ei gysylltiad â'r byd allanol, yn enwedig yn ei ganolfannau a rhaglenni addysgol. Yn y man, yn nwyrair Ewrop hefyd, cafwyd cyfaddawd rhwng y Chasidim, a'u pwyslais ar y llyfrau cyfriniol a phethau fel perlesmair, gwledigaethau a gwyrthiau, a'r Mitnagdim a oedd yn pwysleisio dysg rabinaidd a duwioldeb. Mae ehangder Iddewiaeth, felly, a'i gallu i gymathu pwyslais a mynegiant newydd i'w gweld yn achos y mudiad Chasidig sydd wedi dangos fod ganddo'r gallu i ysbrydoli pobl i astudio ac ufuddhau i'r Torah. Erbyn hyn mae Chasidiaeth, a oedd yn fudiad hynod wreiddiol yn y ddeunawfed ganrif – hereticaidd, ym marn rhai – yn un o gonglfeini Uniongrededd. Mae niferoedd mawr yn aelodau o Agudat Israel, er enghraifft, un o'r mudiadau mwyaf dylanwadol a phwysig o fewn Uniongrededd gyfoes, sy'n cynnwys Iddewon o bob cwr o'r sbectwm Uniongred, yn cynnwys y gymuned Lithwanaidd.

ganolfannau Chasidiaeth (yn y 1930au roedd rhai miliynau o Chasidim yn nwyrain Ewrop) eu dinistrio bron yn llwyr yn ystod yr Holocaust. Ym mha wlad bynnag maen nhw wedi bwrw gwreiddiau, maen nhw'n byw mewn cymunedau clos iawn, sydd fel rheol yn cau allan y byd allanol. Mae cymuned Chasidig sylweddol yn Stamford Hill, Gogledd Llundain. Ynghyd â'r Lithwaniaid Uniongred, maen nhw'n bodoli, er enghraifft, mewn rhannau o Fanceinion, Efrog Newydd ac yn ardal 'Meah Shearim' Jerwsalem. Mae cymuned Iddewig Gateshead (Newcastle) yn falch o arddel ei gwreiddiau yn Lithwania.

Ers blynnyddoedd bellach, mae grwpiau Tra-Uniongred wedi bod yn ymweld â threfi prifysgol yng Nghymru, fel Bangor, Aberystwyth a Chaerdydd yn ystod yr haf. Maen nhw'n aros yn neuaddau'r Brifysgol fel arfer, sy'n hwyluso'r trefniadau paratoi bwyd a llety sy'n ofynnol yn ôl y Torah.

Pan fydd papurau newydd neu'r teledu yn cyflwyno adroddiad am fater Iddewig, llun o Chasid sy'n cael ei ddangos bron yn ddiethriad (er nad yw Chasidim yn hoff o ffotograffau ohonyn nhw'u hunain, maen nhw'n gwneud llun trawiadol iawn!). Mae'r wisg ddu (sy'n deillio o gymdeithas ganoloesol gwlad Pwyl) a'r locsyn clust (er mwyn ufuddhau i Lefiticus 19: 27, 'Nid ydych i dorri'r gwallt ar ochr eich pennau, na thorri ymylon eich barf') yn dangos yn eglur mai Iddew yw hwn. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed wrth gyflwyno safbwynt cwbl groes i Chasidiaeth, fel pan ddangoswyd lluniau ohonyn nhw ar adeg sefydlu eruv yng ngogledd-orllewin Llundain (gweler pennod 12). O ran arferion anodd eu deall o'r tu allan, y cymunedau Tra-Uniongred sydd amlycaf, am y rheswm syml eu bod nhw'n ufuddhau mor llwyr i'r rheolau, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu oes arall. Mae eu rheolau caeth ynglyn â gweddusrwydd (sy'n deillio o'r Codau Cyfreithiol), er enghraifft, yn dweud na chaiff dyn fod ar ei ben ei hun gydag unrhyw fenyw ac eithrio'i wraig. Mae unrhyw fath o agosatrwydd cyhoeddus (fel dal dwylo) gyda'ch gwraig yn cael ei ystyried yn anweddus pan fydd pobl eraill yn bresennol. Mae hyd yn oed ysgwyd llaw gyda menyw arall yn anweddus hefyd. Gallai dyn Tra-Uniongred sy'n gwrthod ysgwyd llaw â menyw gael ei ystyried yn anfoesgar neu'n sarhaus gan unrhyw un sy'n anghyfarwydd â'u hufuddod i'r rheolau crefyddol, ond does dim byd personol ynglŷn â hyn. Fel yr eglurwyd uchod, dyna fyddai ei agwedd tuag at unrhyw fenyw ac eithrio'i wraig.

05

Iddewiaeth an-uniongred

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am ddatblygiad mudiad a oedd yn ceisio diwygio Iddewiaeth
- sut mae gwahaniaethau allweddol mewn cred yn cael eu hadlewyrchu yn y gwahanol rannau mae menywod yn eu chwarae
- am fudiadau an-Uniongred eraill: Ceidwadol a Rhyddfrydol.